

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:

17/2018

DYDDIAD CYHOEDDI:

22/03/2018

Ymchwil i Brofiadau Cyfranogwyr mewn Partneriaethau Canol Trefi

Ymchwil i Brofiadau Cyfranogwyr mewn Partneriaethau Canol
Trefi
Reynolds A

Reynolds, A; Ymchwil i Brofiadau Cyfranogwyr mewn Partneriaethau Canol
Trefi. 2017. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 17/2018
Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/research-into-participant-experiences-town-centre-partnerships/?lang=cy>

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid
rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag:

Anna Reynolds

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 061 6029

E-bost: anna.reynolds@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr ffigyrau.....	2
Geirfa	3
1. Cyflwyniad.....	4
2. Methodoleg	6
3. Canfyddiadau	7
4. Casgliadau	24
Atodiad A – Holiadur	25

Rhestr ffigyrau

Siart 1.1 Rhywedd.....	7
Siart 1.2 Oed.....	7
Siart 1.3 A ydych yn gweithio neu mewn addysg ar hyn o bryd?	8
Siart 1.4 Ers faint ydych wedi byw yn yr ardal hon?.....	8
Siart 1.5 Fel ffordd i grŵp o bobl weithio i helpu eu cymunedau, pa mor effeithiol yw'r model partneriaeth yn gyffredinol yn eich barn chi?	10
Siart 1.6 Pa mor effeithiol yw'r model partneriaeth yn eich barn chi o ran dod ag amrywiaeth o unigolion at ei gilydd i gynnal gweithgareddau?	10
Siart 1.7 Pa sgiliau ydych chi'n credu sydd eu hangen ar aelodau er mwyn sicrhau bod y bartneriaeth yn effeithiol?	13
Siart 1.8 Pa mor effeithiol oedd TCP fel ffordd o gael pobl i gydweithio?.....	13
Siart 1.9 Beth oedd cryfderau eich TCP?.....	14
Siart 1.10 Beth oedd gwendidau eich TCP?	15
Siart 1.11 Pa mor fodlon yr oeddech gyda'r gweithgaredd a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Canol Trefi?	16
Siart 1.12 Pa mor effeithiol yr ydych chi'n credu fu eich TCP o ran effeithio ar:.....	19
Siart 1.13 A ydych yn credu bod pobl eraill yn y gymuned (ddim yn y bartneriaeth) yn ymwybodol o waith y bartneriaeth?	21

Geirfa

Acronym	Diffiniad
TCP	Partneriaeth Canol Tref
VVP	Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid
TCAP	Cynllun Gweithredu Canol Trefi

1. Cyflwyniad

- 1.1 Bu i Lywodraeth Cymru lansio Partneriaeth Canol Trefi (TCP) yn 2014. *Mae'n gynllun grantiau a weithredir er mwyn cyflawni un o gydrannau allweddol ymrwymiad Llywodraeth Cymru i annog datblygiad economaidd a chefnogi fframwaith adfywio trosfwaol 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' (VVP)¹.*
- 1.2 Mae TCP yn rhaglen gyllido sy'n cefnogi gweithgareddau adfywio mewn 20 o gymunedau ar draws Cymru. Un o'i hegwyddorion sylfaenol yw cydnabod bod pob canol tref angen atebion penodol er mwyn ateb gofynion unigol.
- 1.3 Mae Partneriaethau Canol Tref yn cynnwys amrywiaeth o randdeiliaid mewn tref benodol.
- 1.4 Prif amcanion y bartneriaeth yw:
- cynyddu bywiogrwydd canol trefi drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr;
 - cynyddu buddsoddiad cyhoeddus, preifat a chymunedol mewn canol trefi;
 - lleihau effaith eiddo gwag mewn canol trefi, cefnogi busnesau a gwasanaethau canol trefi er mwyn iddynt sefydlu eu hunain a thyfu a ffynnu;
 - cefnogi arallgyfeirio mewn canol trefi drwy hyrwyddo defnydd amgen megis defnydd preswyl a hamdden; a
 - chefnogi dulliau newydd ac arloesol o fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu canol trefi gyda'r bwriad o rannu arferion gorau â leoliadau eraill.
- 1.5 Roedd yn ofynnol i gymunedau oedd â diddordeb wneud cais am grant TCP. Roedd yna rai cyfyngiadau penodol, er enghraifft nid oedd ardaloedd oedd eisoes yn rhan o raglen VVP yn cael ymgeisio am grant TCP a chyfyngwyd pob awdurdod lleol i ddau gais yr un. Roedd cyllideb TCP yn £1 miliwn ar draws tair blynedd ariannol (2014-2017) a chyfyngwyd ceisiadau unigol i uchafswm o £50,000.

¹ <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/regeneration/vibrant-and-viable-places/?lang=cy>

- 1.6 Bu ugain o ardaloedd yn llwyddiannus yn ystod y broses ymgeisio: Llangefni, Brynmawr & Blaenau, Maesteg, Porthcawl, Rhydaman, Caerfyrddin, Prestatyn, Treffynnon, Bangor, Porthmadog, Treharris, Y Fenni, Castell Nedd, Y Maendy, Abergwaun a Gwdig, Aberdâr, Porth, Blaenafon, Llanwrtyd Fawr a Penarth.
- 1.7 Mae rhaglen TCP nawr wedi dod i ben ac mae Llywodraeth Cymru yn amcanu at archwilio profiadau'r rhai a gymerodd ran mewn TCPau a'u canfyddiadau ynghylch effaith eu partneriaethau.

2. Methodoleg

- 2.1 Dyluniwyd arolwg ar-lein ac fe'i rhannwyd i bob aelod partneriaeth drwy'r awdurdodau lleol². Anfonwyd e-bost, oedd yn cynnwys dolen i'r arolwg, i awdurdodau lleol a anfonodd yr e-bost ymlaen at aelodau eu partneriaethau. Gellir dod o hyd i gopi o'r holiadur yn Ychwanegiad A.
- 2.2 Estynnwyd terfyn amser gwreiddiol yr arolwg ac anfonwyd e-bost atgoffa i'r holl aelodau (eto drwy'r awdurdodau lleol). Roedd yr arolwg yn fyw o 27 Medi i 31 Hydref 2017.
- 2.3 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau caeedig a phenagored er mwyn casglu gwybodaeth feintiol ac ansoddol. Dadansodwyd y data ar *excel*, gyda dadansoddiad thematig o'r cwestiynau penagored.
- 2.4 Anfonwyd yr arolwg i holl aelodau'r partneriaethau. Dywedodd yr awdurdodau lleol bod hynny'n gyfanswm o tua 130 o bobl. Derbyniwyd 31 ymateb, sy'n gyfradd ymateb o 24%. Mae'r gyfradd ymateb isel hon yn golygu na ellir ystyried bod yr ymatebion yn gynrychioliadol o holl gyfranogwyr TCP. Ac ni allwn chwaith fod yn sicr bod pob TCP ar draws Cymru yn gynwysedig. Oherwydd hynny, dylid ystyried bod y canfyddiadau a gyflwynir yn adran 3 yn ddangosol, yn hytrach na'r derfynol.
- 2.5 Oherwydd nad oedd cwblhau'r arolwg yn orfodol, mae yna gwestiynau y derbyniwyd llai na 31 o ymatebion iddynt. Mae hynny yn cael ei ddangos ym maint y sampl a ddarperir gyda chanfyddiadau pob cwestiwn. I'r gwrthwyneb, mae rhai cwestiynau yn cynnig atebion lluosog, felly efallai bod mwy na 31 o ymatebion wedi cael eu derbyn. Mae hynny hefyd yn cael ei ddangos yn y testun.


² Ni ellid anfon e-bostion yn uniongyrchol at y cyfranogwyr oherwydd nid oedd manylion cysylltu yn cael eu cadw'n ganolog. Gofynnwyd i awdurdodau lleol ddweud os oedd ganddynt gyfranogwyr nad oeddent yn defnyddio e-bost ac y gellid anfon copi papur o'r arolwg atynt, ond ni dderbyniwyd yr un enw.

3. Canfyddiadau


Proffil

3.1 Bu i'r arolwg gasglu gwybodaeth ddemograffig am y cyfranogwyr, sy'n cael ei fynegi yn y siartiau isod. Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr (20 o 31) yn wrywaidd, ac roedd y rhan fwyaf (25 o 30) dros 45 oed (Siartiau 1.1 a 1.2).

Siart 1.1 Rhywedd




Siart 1.2 Oed




3.2 Bu i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (21 o 31) nodi bod ganddynt waith llawn amser. Hefyd, nododd yr holl ymatebwyr eu bod o gefndiroedd Cymreig/Saesnig/Albanaidd/Gogledd Iwerddon/Prydeinig (Siart 1.3).

Siart 1.3 A ydych yn gweithio neu mewn addysg ar hyn o bryd?



3.3 Mae Siart 1.4 (isod) yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (20 o 28) wedi byw yn ardal eu TCP am 20 mlynedd neu fwy, a dim ond tri nododd eu bod wedi byw yn ardal eu TCP am lai na phum mlynedd.

Siart 1.4 Ers faint ydych wedi byw yn yr ardal hon?



3.4 Pan ofynnwyd iddynt pam y bu iddynt ddewis cymryd rhan mewn TCP, dywedodd hanner yr ymatebwyr (14 o 28) bod hynny er mwyn helpu i ddatblygu neu wella eu trefi. Nododd chwech eu bod eisoes yn rhan o grwpiau cymunedol oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu trefi. Nododd tri ymatebydd y gofynnwyd iddynt fod yn rhan o'r rhaglen. Roedd rhesymau eraill yn cynnwys:

“Roeddwn eisiau sicrhau bod materion Atal Trosedd yn cael eu trafod yn ystod y cam cyn gynllunio, a bod y Dyluniad yn atal unrhyw elfen sy'n gysylltiedig â Throsedd.”


“Cefais fy ethol ar y pwyllgor gan fy nghyngor tref”

- 3.5 Bu i'r arolwg ganfod bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (19 o 31) wedi cymryd rhan mewn mentrau cymunedol eraill. Nododd chwech o 19 o ymatebwyr eu bod yn aelodau o grwpiau neu gymdeithasau oedd yn gysylltiedig â datblygu trefi, megis Siambrau Masnach. Nododd chwe ymatebydd arall eu bod yn gysylltiedig â phrosiectau datblygu cymunedol cyffredinol, er enghraifft mentrau ymgysylltu ieuencid. Nododd pump eu bod yn ymwneud ag adfywio neu fentrau Cymunedau'n Gyntaf. Nododd dau ymatebydd eu bod yn ymwneud â chynnal digwyddiadau unigol, megis gwyliau a dathliadau.

Model TCP


- 3.6 Roedd yr adran nesaf o gwestiynau yn yr arolwg yn canolbwyntio ar i ba raddau y mae'r ymatebwyr yn credu bod TCP yn gweithio fel model ar gyfer pobl sy'n cydweithio er lles eu hardal leol.
- 3.7 Mae Siart 1.5 (isod) yn cyflwyno pa mor effeithiol y mae'r ymatebwyr yn credu yw'r model partneriaeth fel **ffordd i grŵp o bobl weithio er mwyn helpu eu cymunedau**. Nododd y rhan helaethaf (26 o 31 o ymatebwyr) bod y bartneriaeth yn effeithiol (naill ai'n effeithiol iawn neu'n eithaf effeithiol) fel ffordd i grŵp o bobl weithio er mwyn helpu eu cymunedau. Dim ond pump deimlodd nad oedd yn effeithiol yn y cyswllt yma.

Siart 1.5 Fel ffordd i grŵp o bobl weithio i helpu eu cymunedau, pa mor effeithiol yw'r model partneriaeth yn gyffredinol yn eich barn chi?



3.8 Pan ofynnwyd iddynt pa mor effeithiol maent yn credu yw'r model partneriaeth o ran **dod ag amrywiaeth o bobl at ei gilydd i gynnal gweithgareddau**, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (25 o 31) bod y model naill ai'n eithaf effeithiol neu'n effeithiol iawn o ran dod ag amrywiaeth o bobl at ei gilydd i gynnal gweithgareddau. Dim ond chwe ymatebydd nododd nad yw'r model partneriaeth yn ffordd effeithiol o ddod ag amrywiaeth o bobl at ei gilydd i gynnal gweithgareddau (Siart 1.6).

Siart 1.6 Pa mor effeithiol yw'r model partneriaeth yn eich barn chi o ran dod ag amrywiaeth o unigolion at ei gilydd i gynnal gweithgareddau?



3.9 Yna gofynnwyd i'r aelodau, mewn cwestiwn penagored, ynghylch cryfderau'r model TCP. Y cryfder a nodwyd amlaf, gan 10 o 26 o ymatebwyr, oedd ystod y gwahanol bobl sy'n ymwneud â phartneriaethau. Teimlwyd bod y bartneriaeth yn galluogi i wahanol leisiau gael eu clywed, a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan ystyried amrywiaeth o safbwyntiau.

"Mae tîm y dref wedi dod â grŵp amrywiol o unigolion, sefydliadau ac agendau at ei gilydd i gydweithio. Mae hynny wedi arwain at well ymwybyddiaeth o'r heriau a'r posibiladau yn ein cymuned."

3.10 Nododd saith o ymatebwyr mai un o gryfderau'r model TCP yw ei fod yn galluogi i amcanion penodol a chyffredinol gael eu datblygu. Nododd pedwar ymatebydd bod y model TCP yn help i ganfod ffocws. Mae cryfderau canfyddiadol eraill yn cynnwys:

"Effeithiol o ran hysbysebu digwyddiadau'n effeithiol a chyhoeddusrwydd"

"Rhoi enwau i wynebau"

3.11 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr ynglŷn â heriau'r model TCP. Yn ddiddorol, yn gyffredinol cyfeiriwyd at fwy o heriau na chryfderau. Yr her a nodwyd amlaf, gan 10 o 28 o ymatebwyr, oedd diffyg canfyddiadol o gydweithredu rhwng aelodau. Teimlwyd y gallai fod yn anodd i wahanol randdeiliaid gydweithio'n effeithiol. Nododd nifer o ymatebwyr bod gan randdeiliaid wahanol agendau:

"Cael pawb i ddeall cyfyngiadau a therfynau amser"

"Ddim yn barod i rannu gwybodaeth bob amser"

"Mae Tîm y Dref yn dibynnu ar barodrwydd ac ysbryd o gydweithredu gan yr holl aelodau. Mae aelodau unigol sydd â phroblemau ynghylch cydraddoldeb yr holl gyfranogwyr yn y broses benderfynu, yn gallu ac wedi gosod rhwystrau ar lwybr cynnydd, ac ar brydiau maent wedi defnyddio ein hamser gwerthfawr a chyfyngedig dro ar ôl tro."

3.12 Bu i eraill gyfeirio at heriau mewn perthynas â thryloywder:

"Diffyg cydweithio, diffyg tryloywder ac atebolrwydd, a gall cliciau reoli drwy ddefnyddio tactegau llechwraidd."

"Os nad yw'r angor yn ddigon cryf i ymgysylltu a chydlynu digwyddiadau. Sicrhau nad oes gan yr angor gysylltiadau gwleidyddol. Er mwyn bod yn gwbl annibynnol, mae'n rhaid sicrhau bod yma dryloywder."

“Penderfyniadau yn cael eu gogwyddo tuag at fusnesau unigol. Diddordebau cymunedol ar brydiau’n cael eu bychanu gyda’r sylwad arferol “Nid ydych erioed wedi rhedeg busnes...” Roedd diddordeb gwleidyddol oedd yn gysylltiedig â’r rhai y telid iddynt am reoli’r prosiect yn golygu nad oedd rhai penderfyniadau wedi cael eu gwneud mewn ffordd dryloyw. Penderfyniadau wedi eu gwneud drwy is-bwyllgorau ac e-bostion ar hap a rhai cyfranogwyr yn cael eu hepgor ar hap...”

Bu i ddeg o ymatebwyr nodi heriau o ran denu pobl i fod yn rhan o’r bartneriaeth i ddechrau. Roedd hynny yn cynnwys prinder gwirfoddolwyr ac anhawster o ran cynnwys ystod digon eang o grwpiau yn y rhaglen. Roedd heriau eraill yn cynnwys amserlennu a chyllid.


“Ymatebion negyddol gan wleidyddion lleol, sirol a chenedlaethol sydd â mwy o ddiddordeb yn eu brwydrau pŵer bach [eu hunain] na helpu’r gymuned...”

“Mae yna ddiffyg diddordeb lleol yn arbennig ymysg busnesau lleol.”

“Yr amserlen - nid oeddem yn gallu cynnal cymaint o ddigwyddiadau ag yr oeddem wedi ei ddymuno, felly ni fu i ni ddefnyddio’r holl gyllid oedd ar gael.”

- 3.13 Gofwywyd i’r ymatebwyr amlinellu pa sgiliau yr oeddent yn teimlo y dylai aelodau TCP eu cael er mwyn sicrhau bod y TCP yn effeithiol. Rhoddwyd rhestr o sgiliau i’r ymatebwyr, ac roeddent yn gallu ticio pob un oedd yn gymwys. Mae’r siart isod yn dangos y nifer o weithiau y dewiswyd pob sgil gan yr ymatebwyr.
- 3.14 Y sgil a ddewiswyd amlaf oedd brwdfrydedd, gyda bron pob ymatebydd (29 o 30) yn dewis y sgil yma. Hefyd, ystyriwyd bod cael diddordeb yn y gymuned yn bwysig, a dewisodd 27 o 30 ymatebydd y sgil yma. Teimlodd o leiaf 20 o’r 29 ymatebydd i’r cwestiwn yma bod yr holl sgiliau a restrwyd yn bwysig, fel mae Siart 1.7 (isod) yn ei ddangos. Dim ond pedwar ymatebydd arall ddewisodd awgrymu sgiliau eraill, ac roedd y rai hynny yn cynnwys pwysigrwydd ymrwymiad a bod yn ymwybodol o faterion a phroblemau.


Siart 1.7 Pa sgiliau ydych chi'n credu sydd eu hangen ar aelodau er mwyn sicrhau bod y bartneriaeth yn effeithiol?



Canfyddiadau ynghylch TCPau unigol


3.15 Roedd adran nesaf yr arolwg yn holi ymatebwyr am eu TCP yn benodol, yn hytrach na meddwl am y model yn ei gyfanrwydd. Mae Siart 1.8 (isod) yn dangos pa mor effeithiol yr oedd ymatebwyr yn teimlo yr oedd eu partneriaethau unigol fel **ffordd o gael pobl i gydweithio**. Bu i'r rhan fwyaf (24 o 30) nodi ei fod yn effeithiol. Dim ond chwech o 30 o ymatebwyr nododd nad oedd y TCP yn ffordd effeithiol iawn o sicrhau cydweithio. Yn ddiddorol, er bod 24 wedi nodi bod eu TCP penodol yn effeithiol mewn perthynas â hyn, roedd ychydig mwy na hynny (26 ymatebydd) yn teimlo bod y model yn gyffredinol yn ffordd effeithiol o gydweithio.

Siart 1.8 Pa mor effeithiol oedd TCP fel ffordd o gael pobl i gydweithio?



- 3.16 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr ynglŷn â chryfderau eu partneriaethau unigol. Unwaith eto, rhoddwyd rhestr o gryfderau i'r ymatebwyr, ac roeddent yn gallu ticio pob un oedd yn gymwys.
- 3.17 Mae Siart 1.9 (isod) yn dangos pa mor aml y dewiswyd pob opsiwn. Yr ymateb a ddewiswyd amlaf oedd y gefnogaeth a gafwyd gan yr awdurdod lleol, ac yna syniadau aelodau ac ymrwymiad aelodau a chefnogaeth y gymuned.

Siart 1.9 Beth oedd cryfderau eich TCP?




- 3.18 Fel yn achos y model TCP cyffredinol, gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr roi sylwadau ar unrhyw heriau sydd yn wynebu eu partneriaeth. Mae Siart 1.10 yn dangos yr ymatebion a dderbyniwyd. Rhoddwyd rhestr o heriau i'r ymatebwyr, ac roeddent yn gallu ticio pob un oedd yn gymwys. Yr her a ddewiswyd amlaf, (gan 10 o 26 o ymatebwyr), oedd 'diffyg cefnogaeth gan fusnesau'. Nodwyd cefnogaeth y gymuned ac ymrwymiad aelodau fel cryfderau gan y rhan fwyaf o'r aelodau yn y cwestiwn blaenorol, ond hefyd fel her gan ymatebwyr yn y cwestiwn hwn (naw a saith yn ôl eu trefn o 26 o ymatebwyr). Gallai hynny fod yn arwydd o natur heriol ymgysylltu a chynnal cefnogaeth ac ymrwymiad aelodau a'r gymuned ehangach. Roedd heriau canfyddiadol eraill yn cynnwys:

“Difaterwch ar brydiau”

“Diffyg ymgysylltu”

“Perchnogion eiddo ddim yn cyfranogi, efallai bod cyllid gan y Llywodraeth wedi ein rhwystro rhag canfod ein nodau ac amcanion ein hunain gan ddod yn afon o grantiau i eraill.”

Siart 1.10 Beth oedd gwendidau eich TCP?



3.19 Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo bod gan eu partneriaethau y sgiliau angenrheidiol i sicrhau llwyddiant, nododd y rhan helaeth, 28 o 31 o ymatebwyr, eu bod yn credu hynny. Bu i'r tri ymatebydd nad oedd yn credu hynny gynnig y rhesymau canlynol ynghylch beth oedd angen ei wella.

“Gwell trefn, mwy o hyfforddiant”

“Ymrwymiad gan fwy na 4 aelod”

“ Y bobl iawn”

3.20 Pan ofynnwyd iddynt pa mor aml yr oedd eu partneriaeth yn cyfarfod, dim ond llai na hanner yr ymatebwyr (14 o 29) nododd bod eu TCP yn cyfarfod bob tri mis, tra bod 11 wedi nodi eu bod yn cyfarfod unwaith y mis neu'n fwy aml. Bu i un ymatebydd nodi bod ei TCP yn cyfarfod unwaith bob chwe mis.

3.21 Nododd bron i hanner yr ymatebwyr (14 o 29) eu bod yn rhoi eu hamser yn wirfoddol. O'r rhain, nododd chwe ymatebydd eu bod yn rhoi eu hamser yn wirfoddol ond nad oedd hynny'n cael ei gofnodi a'i fod yn anodd i'w amcangyfrif. Nododd ymatebwyr eraill ystod o atebion:

“Ie, tua 20 awr”

“Amser gwirfoddol...cannoedd a channoedd o oriau...”

“150+”


“70 awr”

“6 i 8 awr yr wythnos”

3.22 Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (22 o 30) bod yr awdurdod lleol yn darparu digon o gefnogaeth ac arweiniad.

3.23 Un o amodau derbyn grant TCP oedd creu Cynllun Gweithredu Canol Trefi (TCAP). Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon â'r gweithgaredd a nodwyd yn y TCAP, fel mae Siart 1.11 (isod) yn ei ddangos, gyda 24 o ymatebwyr yn adrodd eu bod yn fodlon â'r gweithgaredd yn y cynllun.

Siart 1.11 Pa mor fodlon yr oeddech gyda'r gweithgaredd a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Canol Trefi?



Gweithgaredd ac Effaith

3.24 Roedd adran nesaf yr arolwg yn edrych ar weithgaredd ac effaith y TCP ar gymunedau. Nododd y rhan fwyaf, 19 o 28, bod eu TCP yn cyflawni'r rhan fwyaf o'u TCAP, a dim ond naw nododd nad oedd eu TCP yn cyflawni'r TCAP. Pan ofynnwyd iddynt beth oeddent yn methu â'i gyflawni a pham, nodwyd amrywiaeth o ymatebion:

“Cael y gymuned fusnes i gydweithio a dangos ymrwymiad.”

“Digon o syniadau ond neb yn barod i helpu”

“Diffyg arweiniad...”

“Nid oedd gennym gynllun Canol Tref”

“Bu i’r cwmni a roddwyd yn gyfrifol wneud dim, mewn gwirionedd bu iddo wario holl arian y TCP a chyflawni dim”

- 3.25 Gofynnwyd i’r ymatebwyr beth oeddent yn credu oedd eu gweithgaredd mwyaf llwyddiannus. Nododd y rhan fwyaf (13 o ymatebwyr) mai digwyddiad penodol neu ymgyrch leol oedd eu gweithgaredd mwyaf llwyddiannus. Er enghraifft:

“Gŵyl Gwrw a Seidr”

“Ymgyrch prynu’n lleol - aml gyfryngau, ar y safle ac ar-lein - poster, map, cyflwyniad a ffilmiau byr”

“Popeth h.y. Stondinau marchnad, goleuadau Nadolig, diwrnod Ffair Fictoraidd, parti pen-blwydd y Frenhines i blant, Ffair Haf, Noson Burns, sioe ffasiwn etc.”

- 3.26 Roedd saith o ymatebwyr eraill yn teimlo mai eu gweithgareddau mwyaf llwyddiannus oedd cynlluniau ac effeithiau ehangach y TCP. Mae'r rhain yn cynnwys:

“Cyfranogiad yr holl bartïon wrth geisio creu newid”

“Sefydlu grŵp er mwyn ymchwilio i’r cynigion datblygu”

“Cyfarfodydd a phenderfyniadau grant”

- 3.27 Gweithgareddau mwyaf llwyddiannus pedwar aelod oedd newidiadau penodol mewn canol trefi megis:

“Cael cyngor y dref i gytuno i agor y stryd fawr i draffig...”

“Adfywio ac ail ddylunio [Stryd X]”

“Astudiaeth o ffryntiau siopau”

- 3.28 Pa ofynnwyd iddynt pam eu bod yn credu bod y gweithgareddau hyn wedi bod yn llwyddiannus, derbyniwyd ystod o ymatebion. Bu i ddeg o’r 25 o ymatebwyr i’r cwestiwn hwn nodi bod eu gweithgaredd yn llwyddiannus oherwydd bod gwahanol grwpiau’n cydweithio tuag at yr un nod. Roedd y grwpiau yma yn cynnwys gwirfoddolwyr, busnesau, awdurdodau lleol, grwpiau cymunedol, trigolion ac aelodau. Bu i chwe aelod nodi bod ymroddiad, ymrwymiad a brwdfrydedd aelodau a gwirfoddolwyr oedd yn gysylltiedig â’r gweithgareddau wedi sicrhau eu bod yn llwyddiant. Nododd dau aelod bod eu gweithgareddau wedi bod yn llwyddiannus

oherwydd bod y digwyddiadau yn gwasanaethu amrywiaeth o bobl yn y gymuned. Nododd naw o'r ymatebwyr resymau eraill dros lwyddiant y gweithgareddau, megis:

"Codi proffil y dref."

"Newidiodd y dimensiwn a lleihau trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol"

"Roedd yn clustnodi beth oedd angen ei wneud"

- 3.29 Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr pa weithgareddau na weithiodd cystal. Nododd saith o'r 22 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn nad oedd yna unrhyw beth nad oedd wedi gweithio'n dda. Roedd y gweithgareddau penodol nad oedd wedi gweithio cystal yn cynnwys: digwyddiadau unigol penodol (pump ymatebwr), cyrsiau hyfforddiant (dau) a newidiadau i systemau traffig (dau). Bu i chwe ymatebwr ddarparu ymatebion 'eraill' oedd yn cynnwys:

"Mwy o brinder cyllid er mwyn adeiladu ar waddol"

"Y camau oedd yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau unigol gyfranogi"

"Datblygu'r We - arweiniad y cyngor"

- 3.30 Pan ofynnwyd iddynt pam nad oedd y rhain wedi gweithio cystal, nodwyd 13 o ymatebion. Nododd pum ymatebwr nad oedd aelodau yn cydweithio'n effeithiol. Nododd dau ymatebwr bod sefydliadau allanol yn cyfyngu ar allu aelodau i gynnal gweithgareddau'n llwyddiannus, a nododd dau arall bod amserlennu yn broblem. Bu i bedwar ymatebwr ddarparu ymatebion eraill oedd yn cynnwys:

"Dim digon o bwysigrwydd yn cael ei roi i'r mater, yn ogystal â diffyg cydymffurfiaeth gan y cyhoedd"

"Nid oedd y grŵp oedd yn trefnu yn dda wrth ddelio â chyhoeddusrwydd"

"Heb roi digon o feddwl iddo, ychydig o dystiolaeth o allbynnau, costus i'w sefydlu"


- 3.31 Roedd y set nesaf o gwestiynau yn gofyn i aelodau pa mor effeithiol yr oeddent yn teimlo yr oedd eu TCP mewn perthynas ag amcanion gwreiddiol y rhaglen, yn benodol:

Cynyddu bywiogrwydd canol trefi drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr; cynyddu buddsoddiad cyhoeddus, preifat a chymunedol mewn canol trefi; lleihau effaith eiddo gwag mewn canol trefi; cefnogi busnesau a gwasanaethau canol tref er mwyn iddynt sefydlu eu hunain a thyfu a ffynnu; cefnogi canol trefi i arallgyfeirio drwy hyrwyddo defnyddiau amgen megis defnyddiau preswyl a hamdden; cefnogi dulliau

newydd ac arloesol o fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu canol trefi gyda'r bwriad o rannu arferion gorau â lleoliadau eraill.

3.32 Mae Siart 1.12 yn dangos pa mor effeithiol yr oedd ymatebwyr yn teimlo y mae eu TCPau wedi bod o ran effeithio ar amcanion gwreiddiol y rhaglen.

Siart 1.12 Pa mor effeithiol yr ydych chi'n credu fu eich TCP o ran effeithio ar:




3.33 Mae'r siart yn dangos bod y rhan fwyaf (20 o 29 o ymatebwyr) wedi nodi bod eu TCP wedi bod yn effeithiol o ran **cefnogi dulliau newydd ac arloesol o fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu trefi**.

3.34 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor effeithiol yr oeddent yn teimlo yr oedd eu TCP wedi bod o ran **cefnogi canol trefi i arallgyfeirio drwy hyrwyddo defnyddiau amgen megis defnyddiau preswyl a hamdden**. Derbyniodd y cwestiwn yma ymateb negyddol ar y cyfan, a nododd y rhan fwyaf (17 o 29 o ymatebwyr) eu bod yn teimlo nad oedd eu TCP wedi bod yn effeithiol o ran cefnogi canol trefi i

arallgyfeirio drwy hyrwyddo defnyddiau amgen. Dim ond 12 oedd yn teimlo bod eu TCP wedi bod yn effeithiol yn y cyswllt yma.

- 3.35 Nododd y rhan helaeth (23 o 29 o ymatebwyr) eu bod yn teimlo bod eu TCP wedi bod yn effeithiol o ran **cefnogi busnesau a gwasanaethau canol tref er mwyn iddynt sefydlu eu hunain a thyfu a ffynnu.**
- 3.36 Pan ofynnwyd iddynt pa mor effeithiol yr oeddent yn teimlo yr oedd eu TCP wedi bod o ran **lleihau effaith eiddo gwag mewn canol trefi**; roedd yr ymatebion wedi eu rhannu'n gyfartal, gyda 13 o ymatebwyr yn nodi bod eu TCP yn effeithiol yn y cyswllt hwn, a 13 yn nodi nad oedd.
- 3.37 Gofynnwyd i'r ymatebwyr pa mor effeithiol yr oeddent yn credu yr oedd eu TCP wedi bod o ran **cynyddu buddsoddiadau cyhoeddus, preifat a chymunedol mewn canol trefi.** Er bod 18 yn teimlo bod eu TCP yn effeithiol yn y cyswllt hwn, roedd dros un rhan o dair (11) yn teimlo nad oedd.
- 3.38 Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr (19 o 27) yn tybio bod eu TCP wedi bod yn effeithiol o ran **cynyddu bywiogrwydd canol trefi drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr.** Nododd wyth o ymatebwyr bod eu TCP wedi bod yn effeithiol yn y cyswllt yma.
- 3.39 Mae Siart 1.13 yn cynrychioli a oedd aelodau yn teimlo bod pobl eraill yn y gymuned yn ymwybodol o'r gwaith mae'r bartneriaeth yn ei wneud. Mae'r siart yn dangos bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (15 o 31) yn teimlo nad oedd pobl eraill yn ymwybodol o'r gwaith yr oedd y bartneriaeth yn ei wneud. Roedd wyth aelod yn credu bod pobl yn ymwybodol ac roedd wyth arall yn ansicr.

Siart 1.13 A ydych yn credu bod pobl eraill yn y gymuned (ddim yn y bartneriaeth) yn ymwybodol o waith y bartneriaeth?



Olynydd TCP

- 3.40 Roedd y set olaf o gwestiynau yn ymdrin â'r cynlluniau ar gyfer TCPau i'r dyfodol. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, 21 o 30, bod eu TCP yn dal i fodoli. Er bod bron i un rhan o dair o'r ymatebwyr (naw) wedi nodi nad oeddent bellach yn bodoli.
- 3.41 O'r 21 o ymatebwyr y mae eu TCP yn dal i fodoli, nododd 20 bod gweithgareddau yn dal i gael eu cynnal. Nododd dau ddeg chwech o 30 o ymatebwyr bod y gwaith a ddechreuwyd gan y TCP yn eu hardal wedi parhau hyd y gwyddent.
- 3.42 Pan ofynnwyd iddynt a fyddent eisiau ymwneud â rhaglen debyg yn y dyfodol, nododd bron y cyfan (26 o 29) y byddent yn dymuno hynny. Dim ond tri nododd na fyddent yn dymuno bod yn gysylltiedig yn y dyfodol.
- 3.43 Pan ofynnwyd iddynt egluro eu rhesymau, o blith y tri a nododd na fyddent eisiau bod yn rhan o raglen debyg yn y dyfodol, roedd yr ymatebion yn cynnwys:

“Dylai peth o'r gwaith yr oeddem yn ei wneud fod yn rhan o gylch gwaith y Cyngor Tref a Sir. Roedd yn ymddangos bod yna ychydig o agwedd bod y TCP yn gwneud hynny; felly nid oes angen i ni wneud hynny.”

“Os bydd cwmni preifat yn cael ei dalu i gynnal prosiectau fel hyn, mae angen i hynny gael ei fonitro'n ofalus fel na allant wario arian y dref a chyflawni dim.”

“Byddaf yn ymddeol yn 2018”

- 3.44 O'r rhai a nododd y byddent eisiau bod yn gysylltiedig â rhaglenni tebyg yn y dyfodol, nododd chwech o'r rhain bod hynny'n wir oherwydd eu bod eisiau helpu i wella eu cymuned. Nododd pedwar ymatebydd bod y gweithgareddau yr oeddent yn rhan ohonynt o'r blaen wedi helpu eu trefi yn sylweddol, a'u bod wedi effeithio'n sylweddol gadarnhaol ar y gymuned. Nododd dau ymatebydd eu bod eisiau cyfranogi oherwydd eu bod yn teimlo eu bod wedi dysgu llawer o'r broses, ac y byddent yn gallu creu mwy o effaith gadarnhaol o ganlyniad i'r hyn a ddysgwyd.
- 3.45 Bu i rai aelodau fyddai'n dymuno bod yn rhan o raglenni tebyg nodi gwelliannau posibl hefyd, yn cynnwys yr angen i: aelodau gydweithio'n fwy effeithiol yn hytrach na chanolbwyntio ar eu diddordebau eu hunain, yn ogystal â chyllid ychwanegol i gefnogi partneriaethau. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys:
- "Mae'n rhaglen i'r gymuned a gynhelir gan y gymuned"*
- "Mae'n angenrheidiol ond efallai y byddai adeiladu capasiti cyngorau tref a sir yn fwy effeithiol."*
- "Mae'r TCP yn darparu ffocws i wahanol bartneriaid a chyfle i weithio ar draws sectorau. Mae hwn yn gyfle gwirioneddol i archwilio mwy o waith mewn perthynas ag iechyd/hamdden a'r gymuned sydd er lles busnesau."*
- 3.46 Nododd bron pob un o'r ymatebwyr (29 o 30) eu bod yn tybio bod rhaglen TCP yn ddefnyddiol. Yn olaf, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedd ganddynt unrhyw sylwadau terfynol. Nodwyd saith o sylwadau. Roedd pedwar yn gadarnhaol ac yn pwysleisio'r angen i TCP barhau. Roedd tri o'r sylwadau yn amlygu heriau oedd yn wynebu'r bartneriaeth.
- "Byddai'n drist colli'r uchelgais a'r wybodaeth a grëwyd drwy gydweithio. Gweithio mewn partneriaeth rhwng y sectorau Masnachol a Chyhoeddus tuag at wireddu amcanion cyffredin yw'r allwedd i iechyd a llesiant cymunedol llwyddiannus, ac mae'n rhaid i hynny hefyd gynnwys llesiant economaidd."*
- "Dylai'r amserlen ar gyfer bodolaeth TCP gael ei hymestyn."*
- "Parhau i ddatblygu'r prosiect gwych yma a rhoi gwybod i bapurau lleol beth sydd wedi ac sy'n mynd i ddigwydd yn eu cymuned bob amser."*
- "Buaswn yn gobeithio y byddai rhaglen TCP newydd yn cael ei chyflwyno er mwyn helpu i barhau â gwaith y rhaglen TCP wreiddiol."*

“Roedd ein TCP ni yn dioddef oherwydd bod pobl yn gadael eu swyddi etc. - nid yw'n hawdd bob amser i bobl newydd gymryd yr awenau.”

“Mae cymorth gwasanaeth a ddarperir gan yr awdurdod lleol yn allweddol pan fo gan y grŵp TCP bryderon/broblemau o ran adrodd yn brydlon...gallai hynny fod yr hoelen olaf pan fo unigolion yn cael eu gorlwytho ac yn gweithio'n llawn amser eu hunain”

“Efallai y dylai LIC neilltuo mwy o adnoddau mewn un man er mwyn profi beth sy'n gweithio go iawn a dysgu gwersi o hynny, yn hytrach na thaenu'r cyfan yn rhy denau mewn gormod o lefydd fel nad yw mewn gwirionedd o unrhyw ddefnydd gwirioneddol. Mae arnom angen nifer o £m i wneud gwir wahaniaeth. Rydym yn treulio gormod o amser yn gwneud cais am botiau bach o arian o wahanol fannau yn cynnwys VW. Nid yw'r symiau sydd ar gael yn ddigon mawr i greu'r gwahaniaeth sy'n bosibl. Gallai gwahanol adrannau LIC gydweithio ar raglen wella ardal gyfan. Byddem wrth ein bodd yn rhoi hynny ar brawf.”

4. Casgliadau

- 4.1 Bu i'r prosiect ymchwil bychan hwn ganfod bod ymatebwyr i'r arolwg yn ystyried bod y TCP yn offeryn defnyddiol ar gyfer gwella trefi yng Nghymru.
- 4.2 Roedd dwy ran o dair o'r ymatebwyr i'r arolwg (20 o 31) yn wrywaidd, ac roedd y rhan fwyaf (25 o 30) dros 45 oed. Nododd 19 o'r 31 o ymatebwyr eu bod wedi bod yn gysylltiedig â mentrau cymunedol eraill o'r blaen.
- 4.3 Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod yr ymatebwyr yn ystyried bod TCP yn fodel effeithiol ar gyfer datblygu atebion penodol ar gyfer trefi. Teimlir bod y cysyniad o gael grŵp sy'n cynnwys ystod o randdeiliaid ym mhob canol tref yn effeithiol o ran datblygu datrysiadau i broblemau penodol mewn canol trefi.
- 4.4 Roedd y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn teimlo bod TCPau yn ffordd dda o ddod â phobl at ei gilydd, ond yn ymarferol nododd nifer o aelodau bod cydweithio yn anodd. Diffyg cydweithio canfyddiadol ac arafwch gwneud penderfyniadau oedd y prif heriau a nodwyd gan yr ymatebwyr.
- 4.5 Mynegwyd pryderon yn yr arolwg ynghylch y canfyddiad nad yw'r gymuned ehangach o bosibl yn ymwybodol o waith y bartneriaeth. Teimlwyd bod cefnogaeth y gymuned ehangach yn allweddol ar gyfer effeithiolrwydd TCP. Felly, yn y dyfodol efallai y bydd angen cynyddu ymwybyddiaeth o'r bartneriaeth.
- 4.6 Er gwaetha'r heriau a nodwyd gan yr ymatebwyr, yn gyffredinol mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod model TCP yn ddefnyddiol ac y byddent eisiau bod yn gysylltiedig yn y dyfodol. Roedd yna gonsensws ymysg yr ymatebwyr mewn perthynas ag effaith gadarnhaol TCP ar gymunedau.

Atodiad A – Holiadur

Proffil

Dywedwch ychydig amdanoch eich hun:

1. Rhyw:
 - Dyn
 - Menyw

2. Oedran:
 - 16 – 24
 - 25 – 50
 - 51 – 70
 - 70+

3. Ydych chi'n gweithio neu'n derbyn addysg amser llawn
 - Gweithio'n amser llawn
 - Gweithio'n rhan-amser
 - Addysg / hyfforddiant amser llawn
 - Addysg / hyfforddiant rhan-amser
 - Di-waith
 - Wedi ymddeol

4. Beth yw eich grŵp ethnig?
 - Gwyn*
 - Cymreig/Seisnig/Albanaidd/Gwyddelig Gogledd Iwerddon/Prydeinig
 - Gwyddelig
 - Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig
 - Unrhyw gefndir Gwyn arall

 - Cymysg*
 - Gwyn a Du Caribïaidd
 - Gwyn a Du Affricanaidd
 - Gwyn as Asiaidd
 - Unrhyw gefndir Cymysg/aml ethnig arall

 - Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig*
 - Indiaidd
 - Pacistanaidd
 - Bangladeshaidd
 - Tsieineaidd
 - Unrhyw gefndir Asiaidd arall

 - Du neu Ddu Prydeinig*
 - Affricanaidd
 - Caribïaidd
 - Unrhyw gefndir Du/Affricanaidd/Caribïaidd arall

Grŵp ethnig arall

- Arabaidd
 - Unrhyw grŵp ethnig arall

 - Gwell gennyf beidio â dweud
5. Ers faint ydych chi wedi bod yn byw yn yr ardal?
- Llai na 5 mlynedd
 - 6-10 mlynedd
 - 11-20 mlynedd
 - 20+ mlynedd
6. Pam benderfynoch chi ymuno â'r Bartneriaeth?
7. Ydych chi wedi bod yn aelod o fenter gymunedol o'r blaen?
- Ydw
 - Nac ydw

 - Os ydych, beth yw/oedd y fenter?

Y Model:

Rydym am ofyn ichi pa mor dda yn eich barn chi mae'r Bartneriaeth yn gweithio fel model ar gyfer cael pobl leol i weithio gyda'i gilydd er lles eu hardal. Felly, ar gyfer yr adran hon, hoffwn ichi feddwl sut mae'r Bartneriaeth wedi gweithio, yn hytrach nag am ei heffaith ar yr ardal.

8. Fel ffordd i grŵp o bobl weithio er lles eu cymuned, pa mor effeithiol fu'r model yn eich barn chi ar y cyfan?
- Effeithiol iawn
 - Eithaf effeithiol
 - Ddim yn effeithiol iawn
 - Ddim yn effeithiol o gwbl
9. Pa mor effeithiol yn eich barn chi yw model y bartneriaeth fel ffordd i ddod ag **amrywiaeth** o unigolion ynghyd i gynnal gweithgareddau?
- Effeithiol iawn
 - Eithaf effeithiol
 - Ddim yn effeithiol iawn
 - Ddim yn effeithiol o gwbl
10. Beth yw cryfderau model y Bartneriaeth?
11. Beth yw heriau model y Bartneriaeth?

12. Pa sgiliau yn eich barn chi sydd eu hangen ar yr aelodau i wneud partneriaeth effeithiol? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)
- Sgiliau cyfathrebu
 - Sgiliau trefnu
 - Sgiliau arwain
 - Brwdfrydedd
 - Diddordeb yn y Gymuned
 - Arall

Gan droi i siarad yn benodol am eich Partneriaeth chi,

13. Yn eich barn chi, pa mor effeithiol oedd y Bartneriaeth Canol Trefi fel ffordd i bobl weithio gyda'i gilydd?

- Effeithiol iawn, eithaf effeithiol, ddim yn effeithiol iawn, ddim yn effeithiol o gwbl

14. Beth oedd cryfderau'ch Partneriaeth chi? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Y ffordd y cafodd ei threfnu
- Ymrwymiad yr aelodau
- Casgliad sgiliau'r aelodau
- Syniadau'r aelodau
- Cefnogaeth yr awdurdod lleol
- Cefnogaeth y gymuned
- Cefnogaeth busnesau lleol
- Arall (manylwch)

15. Beth oedd gwendidau'ch Partneriaeth? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- Y ffordd y cafodd ei threfnu
- Ymrwymiad yr aelodau
- Casgliad sgiliau'r aelodau
- Syniadau'r aelodau
- Diffyg cefnogaeth yr awdurdod lleol
- Diffyg cefnogaeth y gymuned
- Diffyg cefnogaeth busnesau lleol
- Arall (manylwch)

16. A oedd gan eich Partneriaeth y sgiliau oedd eu hangen arni i lwyddo?

- Oedd / Nac oedd
- Os nad oedd, pa sgiliau oedd eu hangen?

17. Pa mor aml oedd eich Partneriaeth yn cwrdd?

- Unwaith y mis
- Unwaith bob 2-3 mis
- Unwaith bob 6 mis
- Arall

18. Heblaw am fynd i gyfarfodydd, wnaethoch chi wirfoddoli'ch amser iddi? Os do, tua faint o oriau ...?

19. A wnaeth yr Awdurdod Lleol roi digon o help a chyngor?

- Do
- Naddo

20. Pa mor fodlon oeddech chi â'r gweithgareddau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Canol y Dref?
- Bodlon iawn
 - Eithaf bodlon
 - Ddim yn fodlon
 - Ddim yn fodlon o gwbl

Gweithgareddau a'u Heffaith

Dyma rai cwestiynau am yr effaith rydych yn meddwl y mae'r Bartneriaeth wedi'i chael ar y gymuned.

21. A lwyddodd y Bartneriaeth i roi'r holl/rhan fwyaf o'r Cynllun Gweithredu Canol y Dref ar waith?
- Do
 - Naddo
 - Os naddo, beth na chafodd ei roi ar waith a pham?

22. Beth oedd eich gweithgaredd mwyaf llwyddiannus?
- Pam oedd hwn mor llwyddiannus?

23. Pa weithgareddau oedd ddim mor llwyddiannus?
- Pam na wnaethon nhw weithio cystal â'r disgwyl?

24. Pa mor effeithiol fu'ch Partneriaeth i gael effaith ar:

- a) Cynyddu bwrlwm canol y drefn trwy ddenu mwy o bobl:
- Effeithiol iawn
 - Eithaf effeithiol
 - Ddim yn effeithiol iawn
 - Ddim yn effeithiol o gwbl

- b) Cynyddu'r buddsoddiad cyhoeddus, preifat a chymunedol yng nghanol y dref:
- Effeithiol iawn
 - Eithaf effeithiol
 - Ddim yn effeithiol iawn
 - Ddim yn effeithiol o gwbl

- c) Lleihau effaith eiddo gwag yng nghanol y dref:
- Effeithiol iawn
 - Eithaf effeithiol
 - Ddim yn effeithiol iawn
 - Ddim yn effeithiol o gwbl

- d) Helpu busnesau i sefydlu, tyfu a ffynnu yng nghanol y dref:
- Effeithiol iawn
 -
 - Eithaf effeithiol
 - Ddim yn effeithiol iawn
 - Ddim yn effeithiol o gwbl

- e) Cynyddu'r amrywiaeth yng nghanol y dref trwy annog defnydd gwahanol fel preswyl a hamdden:
- Effeithiol iawn
 - Eithaf effeithiol
 - Ddim yn effeithiol iawn
 - Ddim yn effeithiol o gwbl
- f) Cefnogi atebion newydd ac arloesol i'r problemau sy'n wynebu canol trefi gyda'r nod o rannu'r arferion gorau â mannau eraill:
- Effeithiol iawn
 - Eithaf effeithiol
 - Ddim yn effeithiol iawn
 - Ddim yn effeithiol o gwbl

24. Ydych chi'n credu bod pobl y gymuned (nid y bartneriaeth) yn gwybod am waith y bartneriaeth?
- Ydw
 - Nac ydw
 - Ddim yn gwybod

Dilyniant

25. Ydy'r Bartneriaeth yn bod o hyd?
- Ydy
 - Nac ydy
26. Os ydy, ydy hi'n dal i fod yn weithgar?
- Ydy
 - Nac ydy
27. Hyd y gwyddoch, ydy'r gwaith a ddechreuwyd gan y Bartneriaeth yn dal i fynd yn ei flaen yn eich ardal?
- Ydy
 - Nac ydy
28. A hoffech fod yn rhan o raglen debyg yn y dyfodol?
- Hoffwn
 - Na hoffwn
 - Beth yw'ch rhesymau am hyn?
29. A oedd Rhaglen y Partneriaethau Canol Tref yn un ddefnyddiol yn eich barn chi?
- Oedd
 - Nac oedd
30. Diolch am ateb cwestiynau'r holiadur hwn. A oes gennych sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?